Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad arolygiad monitro blynyddol ar

# Ysgol Marlowe St David's

## Dyddiad yr arolygiad:  Chwefror 2015

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 16/04/2015**

## Cyd-destun

Ysgol annibynnol fach ar gyfer bechgyn a merched saith i ddeunaw oed yw Ysgol Marlowe St David's. Mae mewn lleoliad gwledig yng ngogledd Sir Benfro. Fe'i sefydlwyd yn 2000 ar gyfer disgyblion ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol. Mae'r ysgol yn berchen i, ac yn cael ei rheoli gan, Marlowe Child and Family Services Ltd.

Adeg yr ymweliad, roedd 13 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol. Mae statws plant sy'n derbyn gofal gan saith o ddisgyblion, ac mae'r disgyblion hyn i gyd yn byw yng nghartrefi plant y cwmni. Mae datganiad o anghenion addysgol arbennig (AAA) gan wyth disgybl. Saesneg yw mamiaith pob un o'r disgyblion. Daw ychydig o ddisgyblion o gefndir lleiafrifoedd ethnig.

Ar hyn o bryd, mae'r ysgol yn cyflogi tri athro amser llawn ac un athro rhan-amser. Mae tri o ddosbarthiadau, ac mae disgyblion yn cael eu grwpio yn ôl eu hoed a'u gallu.

Ers adeg yr arolygiad diwethaf, mae'r ysgol wedi cynyddu ei chapasiti o 16 i 20 disgybl, ac wedi symud i mewn i adeilad newydd ar gyfer cyfnod allweddol 2. Mae'r adeilad hwn yn darparu amgylchedd dysgu addas.

Mae'r pennaeth cyfredol wedi bod yn ei swydd er Chwefror 2013.

## Prif ganfyddiadau

### Cryfderau

**Dyma gryfderau'r ysgol:**

- Mae'r ysgol yn darparu lefelau da iawn o gymorth, gofal ac arweiniad
- Bu gwelliant ym mhrydlondeb disgyblion
- Mae gan yr ysgol bolisïau cynhwysfawr sydd wedi'u paratoi'n dda
- Mae newidiadau diweddar i'r strwythur rheoli llinell wedi cyfrannu at gydweithio gwell rhwng y lleoliadau gofal ac addysg

### Meysydd i'w datblygu

**Dyma'r meysydd i'w datblygu yn yr ysgol:**

- Mae cynnydd yn erbyn argymhellion wedi bod yn araf iawn
- Cyfyngedig yw cyfleoedd i staff arsylwi ar arfer dda mewn lleoliadau eraill
- Nid yw cyfleusterau awyr agored ar gyfer dysgu wedi'u datblygu'n ddigonol

**Argymhellion**

**Dylai'r ysgol:**

A1 Sicrhau bod blaenoriaethau strategol allweddol yn cael eu bodloni mewn modd amserol

A2 Sefydlu trefniadau rheoli perfformiad cadarn ar gyfer pob aelod o staff

A3 Defnyddio data'n effeithiol i olrhain cynnydd disgyblion a llywio'r cynllunio

A4 Ymweld â darparwyr eraill i arsylwi ar arfer dda

## Cynnydd wrth fynd i'r afael ag argymhellion o'r nodyn ymweliad neu'r adroddiad arolygu blaenorol

**Argymhelliad 1: Sicrhau bod cynllun datblygu'r ysgol yn blaenoriaethu meysydd i'w datblygu yn glir, a bod adnoddau'n cael eu dyrannu er mwyn gallu cyflawni blaenoriaethau mewn modd amserol**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn rhannol.

Mae cysylltiad clir rhwng yr adroddiad hunanarfarnu a'r cynllun datblygu. Caiff meysydd priodol i'w datblygu eu nodi, ac mewn ychydig o achosion mae adnoddau'n cael eu dyrannu. Er bod graddfeydd amser wedi'u nodi ar gyfer cwblhau pob pwynt gweithredu, nid yw'r rhain wedi'u blaenoriaethu'n glir i sicrhau bod yr ysgol yn parhau â'i ffocws ar y blaenoriaethau allweddol. O ganlyniad, mae'r ysgol wedi bod yn araf yn gwneud cynnydd yn erbyn materion allweddol, ac yn arbennig, yr argymhellion o'r arolygiad diwethaf ac ymweliadau monitro blaenorol.

**Argymhelliad 2: Sefydlu trefniadau rheoli perfformiad cadarn ar gyfer pob un o'r staff**

Nid aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn.

Yn ddiweddar iawn, mae'r ysgol wedi mabwysiadu fframwaith cymhwysedd ar gyfer staff addysgu a staff cymorth. Mae hwn wedi'i rannu gyda staff, ac maent yn dechrau casglu tystiolaeth o sut maent yn bodloni'r cymwyseddau. Mae system o arsylwadau gwersi ffurfiol wedi'i sefydlu ar gyfer staff addysgu a staff cymorth. Cynlluniwyd bod y cyfarfodydd gwerthuso cyntaf i'w cynnal yng Ngorffennaf 2015.

**Argymhelliad 3: Defnyddio data'n effeithiol i olrhain cynnydd disgyblion a llywio'r cynllunio**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn rhannol.

Mae'r ysgol wedi bod yn araf yn datblygu'i defnydd o ddata. Mae'r ysgol yn cofnodi data disgyblion unigol, er enghraifft oedrannau sillafu, canlyniadau profion llythrennedd a rhifedd a lefelau'r Cwricwlwm Cenedlaethol. Mae'r cydlynydd anghenion addysgol arbennig (CydAAA) yn olrhain cynnydd disgyblion â datganiad o AAA ac yn defnyddio data'n briodol i benderfynu ar ymyriadau disgyblion unigol. Fodd bynnag, ar lefel strategol, nid yw'r ysgol yn defnyddio data'n effeithiol i fonitro a dadansoddi cynnydd disgyblion ar lefel ysgol gyfan, lefel dosbarth, grŵp a lefel unigol nac i lywio'r cynllunio.

**Argymhelliad 4: Sicrhau bod pob disgybl yn gwella ei bresenoldeb a'i brydlondeb dros gyfnod**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae'r ysgol wedi rhoi strategaethau priodol ar waith i wella presenoldeb a phrydlondeb. Mae'r rhain yn cynnwys system wobrwyo a chydweithio gwell gyda'r staff gofal. O ganlyniad, mae bron yr holl ddisgyblion wedi gwella'u presenoldeb a'u prydlondeb dros gyfnod.

**Argymhelliad 5: Sicrhau bod staff cymorth yn annog disgyblion i weithio'n annibynnol a datblygu'u medrau**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn rhannol.

Mae staff wedi trafod rôl staff cymorth yn ystod eu cyfarfodydd tîm. Mae hyn wedi rhoi dealltwriaeth well iddynt o'r modd y gall athrawon a staff cymorth weithio â'i gilydd yn effeithiol yn yr ystafell ddosbarth. Yn ddiweddar iawn, mae athrawon wedi dechrau cynnal arsylwadau ffurfiol o staff cymorth. Megis dechrau y mae'r trefniant hwn, fodd bynnag. Eleni, mae pob un o'r staff cymorth yn cwblhau cwrs blwyddyn ar gynorthwyo yn yr ystafell ddosbarth.

## Cydymffurfio â'r safonau ar gyfer cofrestru

**Safon 1: Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i nodi nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

**Safon 2: Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i nodi nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

**Safon 3: Lles, iechyd a diogelwch disgyblion**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i nodi nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

## Safon 4: Addasrwydd perchnogion a staff

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i nodi nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

## Safon 5: Adeiladau a llety preswyl mewn ysgolion

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 5.

## Safon 6: Darparu gwybodaeth

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 6.

## Safon 7: Y modd y dylid ymdrin â chwynion

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i nodi nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

## Argymhelliad ynghylch cofrestru

Wrth ystyried cofrestriad yr ysgol hon, efallai byddai Cynulliad Cenedlaethol Cymru am ddymuno ystyried yr argymhelliad canlynol:

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i nodi nad yw'r ysgol yn bodloni gofynion Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003.

Ni ddylai barnau arolygwyr ar yr arolygiad monitro blynyddol hwn niweidio canfyddiadau arolygiad Adran 163 llawn yn y dyfodol.

## Gwybodaeth am yr ysgol

| | |
|---|---|
| **Ysgol** | Ysgol Marlowe |
| **Rhif yr ysgol** | 668 6014 |
| **Diben yr ymweliad** | Arolygiad monitro blynyddol |
| **Dyddiad yr ymweliad** | 09/02/2015 |
| **Perchennog** | Marlowe Child and Family Services Ltd<br>PO Box 283<br>Gloucester<br>GL19 3YE |
| **Staff** | 5 Athro, (4 ac 1 Pennaeth) 5 Cynorthwyydd Addysgu |
| **Nifer y disgyblion** | 13 |
| **Darpariaeth** | Dydd, yn gysylltiedig â chartrefi plant |
| **Math o angen addysgol arbennig (AAA) y mae'r ysgol yn darparu ar ei gyfer** | Anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol |
| **Arolygiad Adran 163 diwethaf** | 04/02/2014 |
| **Arolygiad monitro blynyddol diwethaf** | 03/12/2012 |
| **Arolygiad diwethaf gan AGGCC** | Amherthnasol |

## Gwybodaeth am y tîm

| | |
|---|---|
| Mrs Caroline Rees | Arolygydd Cofnodol |
| Ms Michelle Gosney | Arolygydd Tîm |